O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 365 (Cy. 87)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 28 Chwefror 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 28 Chwefror 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r gilfan ar gefnffordd yr A470 o’r Amwythig i Ddolgellau ym Mhont Buarth Glas rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy yn Sir Gwynedd.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd gwaith esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Chwefror 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru